

Cam-drin Ariannol - Brîff 7 Munud

1. BETH YW CAM-DRIN ARIANNOL?

- ▶ Cam-drin ariannol yw'r term a ddefnyddir i ddisgrifio niweidio rhywun drwy gymryd arian, nwyddau neu eiddo neu ei dwyllo allan ohonynt.
- ▶ Nid yw cam-drin ariannol byth yn dderbyniol, ni waeth pa mor fach yw'r swm dan sylw.
- ▶ **Mae cam-drin ariannol yn drosedd.**

2. BETH YW CAM-DRIN ARIANNOL?

- ▶ Mae oedolion a phlant mewn perygl o gam-drin ariannol.
- ▶ Efallai na fydd oedolion/plant yn gallu diogelu eu hunain rhag niwed neu ecsbloetiaeth oherwydd anableddau dysgu neu gorfforol, nam ar y synhwyrau, bregusrwydd neu broblemau iechyd meddwl.

3. BETH YW CAM-DRIN ARIANNOL?

- ▶ Gall cam-drin ariannol ddigwydd i bobl unrhyw le ac unrhyw bryd, ac mae'n effeithio ar bobl o bob cefndir. Gall ddigwydd yng nghartref person, mewn cartref gofal, canolfan ddydd, ysbyty neu le cyhoeddus.
- ▶ Cam-drin Ariannol yw'r defnydd o eiddo, asedau, incwm, cynilion neu unrhyw adnoddau eraill heb ganiatâd neu awdurdodiad y perchennog.

4. CYDNABOD

- ▶ Mae'n cynnwys lladrad, twyll, ecsbloetiaeth, pwysau annheg mewn perthynas ag ewyllys, eiddo, etifeddiaeth neu drafodion ariannol, camddefnydd o eiddo neu fuddiannau, camddefnydd o atwrneiaeth neu atwrneiaeth barhaus, neu Benodaeth neu Ddirprwyaeth.

5. MATERION ALLWEDDOL

- ▶ Tynnu arian o'r banc heb esboniad, gweithgarwch anarferol mewn cyfrifon banc, biliau heb eu talu, diffyg arian heb esboniad, amharodrwydd gan y person sy'n gyfrifol am y cyllid i ddarparu bwyd a dillad ac ati, diddordeb anarferol gan aelod o'r teulu, ffrind, gofalwr neu werthwr ym materion ariannol y plentyn/oedolyn.

6. SUT I YMATEB

- ▶ Cadwch lygad allan am y canlynol:
- ▶ Methu talu am siopa neu filiau, heb esboniad
- ▶ Eiddo personol yn mynd ar goll o gartref person
- ▶ Cyflwr byw gwael o gymharu â'r arian y mae'r person yn ei gael

7. GWEITHREDU

- ▶ Siaradwch â rhywun yn y maes Gofal Cymdeithasol am eich pryderon - gweler gwefan NWSB am fanylion cyswllt
- ▶ Os ydych chi neu blentyn/oedolyn rydych yn ei nabod mewn perygl uniongyrchol, ffoniwch 999, neu ffoniwch 101 os ydych chi'n credu bod trosedd wedi'i chyflawni

Caerdydd a Bro Morgannwg
Byrdd Diogelu
Oedolion Rhanbarthol

CaFBDOR

C&VRSAB
Cardiff & Vale of Glamorgan
Regional Safeguarding
Adults Board